GEIRIAU I'N CYNNAL: 'Calonogi'

Myfyrdod Sul cyntaf Chwefror 2021

[Diolch i'r Parchg Peter Thomas am y myfyrdod isod]

Anwyliaid yr Anwel,

Yn ystod yr wythnos hon cyflwynwyd nifer o deyrngedau haeddiannol i'r Capten Syr Tom Moore a fu farw ddydd Mawrth yn 100 oed. Bu ei ymdrechion glew yn ystod misoedd cynnar y pandemig yn ysbrydoliaeth i gynifer. Llwyddodd i gydio yn nychymyg pobl gan esgor ar haelioni rhyfeddol. Grymusodd ein gwerthfawrogiad o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, o ymdrech ac ymroddiad meddygon, nyrsys a gofalwyr a chyfrannwyd dros £33 miliwn mewn nawdd. Roedd ei foneddigeiddrwydd a'i wyleidd-dra, ei ddygnwch a'i wên yn fodd i godi'n calon ynghyd â'i air calonogol a gobeithiol: 'Bydd yfory yn well na heddiw – bydd yfory yn ddiwrnod da.'

Diolch am bobl o'i galibr ef a'i debyg a lwyddodd i ennyn ynom yr hyder i ddal ati mewn dyddiau anodd.

Ym mhennod glo ei lythyr at y Colosiaid y mae'r Apostol Paul yn cyfeirio at ŵr o'r enw Tychicus, a'r hyn a ddywed amdano yw ei fod 'yn frawd annwyl, yn weithiwr ffyddlon sy'n gwasanaethu'r Arglwydd gyda mi', ac yna fe â ymlaen i ddweud: 'yr wyf yn ei anfon atoch yn unswydd er mwyn iddo eich calonogi.'

Gŵr o dalaith Rufeinig Asia oedd Tychicus – roedd yn un o'r bobl hynny yr ymddiriedwyd iddo'r cyfrifoldeb o fynd â'r casgliad cenhadol yn enw'r dalaith i Jerwsalem er mwyn cynorthwyo'r tlodion yno.

I Tychicus yr ymddiriedwyd y cyfrifoldeb hefyd o gludo'r 'Llythyron o Garchar' fel y'u gelwir, sef y llythyron a ysgrifennodd Paul tra oedd mewn carchar yn Rhufain at eglwysi Effesus, Colosia a Philipi. Er mai cynnil yw'r wybodaeth sydd gennym amdano – cyfeiriadau prin yn Llyfr yr Actau a'r llythyr at yr Effesiaid ynghyd â'r cyfeiriad hwn ym mhennod glo'r Colosiaid – mae'n amlwg ei fod yn fwy na phostman epistolau a bod ymhlith ei briod ddoniau y ddawn i galonogi ac i ysbrydoli.

Y ma'na stori am ddyn, pan oedd ar wyliau un haf, yn canfod tyrfa o bobl wrth lanfa gychod. Yno mewn cwch bychan, bregus yr oedd gŵr wrthi'n paratoi i gychwyn ar fordaith. Yr oedd nifer yn y dyrfa yn ceisio ei berswadio rhag mynd, gan ei atgoffa o'r peryglon ac o'r holl bethau a fedrai fynd o'i le. Ond wrth i'r cwch adael y lanfa fe deimlodd yr ymwelydd ryw gymhelliad taer i galonogi'r morwr yn ei gwch bach ac fe waeddodd yn uchel: 'Dos amdani, gyfaill, pob hwyl iti. Ryn ni'n falch ohonot.'

Y mae angen llai o feirniaid arnom a mwy o ysgogwyr llawenydd – y bobl hynny sy'n medru taro nodyn cadarnhaol ynghanol llif o leisiau negyddol, sy'n medru gweld gyda llygaid gwahanol a rhannu gweledigaeth a fydd yn destun llawenydd a gobaith.

A phan fydd rhywrai yn enw Crist yn mentro allan mewn ffydd ac yn taenu eu rhwydau, peidiwn â son am y rhwystrau a'r stormydd ond yn hytrach am wyrth a chyfaredd y rhwydau llawn.

Mi fydd rhai ohonoch, mae'n siŵr, yn cofio'r canwr gwlad o'r 80au Willie Nelson a'r gân 'On the road again':

> *Just can't wait to get on the road again,*
> *Goin' places that I've never been,*
> *Seein' things that I have never seen,*

*And I can't wait to get on the road again.*

O'r pum cyfeiriad at Tychicus yn y Testament Newydd, y mae pob un ohonynt yn ei ddarlunio ar y ffordd ac ar dramp, naill ai gyda Paul, neu'n cario negeseuon neu lythyrau drosto.

Fe ddaeth Tychicus ar wŷs yr Apostol Paul o ddinas Effesus i Colosia er mwyn calonogi'r eglwys yno. Roedd eisoes wedi ennill enw iddo'i hun fel calonogwr o fewn yr eglwys yn Effesus. Sonia Paul amdano wrth y gynulleidfa honno yn ei lythyr: 'Y mae yn frawd annwyl ac yn weinidog ffyddlon yn yr Arglwydd ac yn un i'ch calonogi.' Bu'r rhinwedd honno yn fodd i ddwyn cymod a gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau'r eglwys yn Colosia a thanlinellu swyddogaeth a blaenoriaethau'r Ffydd.

Yr oedd gau-athrawon yn Colosia a oedd am dwyllo'r eglwys ifanc trwy geisio llanw eu meddyliau â dysgeidiaeth a syniadaeth a oedd yn estron i'r Ffydd. Roedd hyn yn amlwg wedi cythruddo Paul ac yn ei lythyr at yr eglwys honno y mae'n tanlinellu egwyddor sylfaenol y ffydd – taw Iesu Grist yw pen yr eglwys ac ynddo Ef yn unig y mae inni brofi bywyd.

Rhoddwyd i Tychicus y ddawn i galonogi, a defnyddiodd y ddawn honno i feithrin ffydd ac argyhoeddiad aelodau eglwys Colosia wrth eu cyfeirio at Iesu. Nid oedd ganddo Destament Newydd i ddarllen ei stori – onid oedd yntau'n rhan o'r stori oedd ar gerdded ym mlynyddoedd cynnar y Ffydd.

Y mae'r stori honno'n parhau a 'rhyw newydd wyrth o'i angau drud a ddaw o hyd i'r golau' wrth inni efelychu esiampl a rhannu tystiolaeth a fedr newid y byd a newid bywydau pobl. Ymddiriedwn yn y Crist digyfnewid, yr Un sydd â'r yfory yn ei law, a gallwn fod yn siŵr o hyn – y bydd yr yfory hwnnw yn ddiwrnod gwirioneddol dda.

Ynghanol bwrlwm cymysg ein profiadau,
Yr oriau lleddf a'r llon a leinw'n byw,
Ond in ymddiried, ma'na Un i'n harbed
A rhannu wna o stôr adnoddau Duw. P.M.T.

Gyda'm cofion cynhesaf a'm dymuniadau da,

Peter

**Darlleniad:** Colosiaid 4:7–8; Actau 20:4; Effesiaid 6:21.

**Gweddi:** Derbyn ein diolch Arglwydd am funudau tawel a fedr newid gwerth y byd i'n golwg, ac am lonyddwch i synhwyro dy bresenoldeb.

Gweddïwn am dy nerth a'th amddiffyn inni mewn dyddiau anodd, pan fydd gofidiau a phryderon yn bygwth, pan fydd afiechyd yn llesteirio neu hiraeth a thristwch yn llenwi'n bron.

Bydded i'th dangnefedd di, sydd uwchlaw pob deall gylchu o'n cwmpas a'n cynnal y foment hon ac i bob yfory newydd a ddaw i'n rhan. Amen.

**Gweddi'r Arglwydd**